

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
Gorffennaf 2009**

COMPARTMENTAU

I DDIOGELU RHAG

FFLIW ADAR A CHLEFYD NEWCASTLE

MEWN CWMNIAU MAGU DOFEDNOD

YM MHRYDAIN FAWR

**MANYLEBAU AR GYFER
PROTOCOLAU RHEOLI
MEWN DEORFEYDD**

“Compartment means an animal subpopulation contained within one or more establishments under a common biosecurity management system with a distinct health status with respect to specific diseases for which required surveillance, control and biosecurity measures have been applied for the purpose of international trade” (Mae compartment yn golygu isboblogaeth o anifeiliaid a gaiff ei chynnwys mewn un neu ragor o sefydliadau dan system reoli bioddiogelwch gyffredin ac â statws iechyd arbennig o ran afiechydol penodol ac y cymhwyswyd y mesurau gwyliadwraeth, rheoli a bioddiogelwch gofynnol at ddibenion masnach ryngwladol’

Cod Iechyd Anifeiliaid Daearol OIE, Rhifyn 2008

MANYLEBAU AR GYFER PROTOCOLAU RHEOLI MEWN DEORFEYDD

NODER: Mae'r paragraffau mewn print trwm ond yn berthnasol i Safon Well Prydain Fawr. Mae paragraffau mewn print arferol yn berthnasol i Safon yr UE a Safon Well Prydain Fawr.

Diffiniadau:

Ystyr "cwmni" yw'r cwmni sy'n gwneud y cais am statws compartment.

Ystyr "cynhyrchydd" yw'r fenter sy'n cynhyrchu a darparu'r deunyddiau pecynnu (Adran 7).

Ystyr "Cyfnodau Risg Uwch" yw unrhyw amser pan gadarnhawyd bod achosion o fflw adar neu glefyd Newcastle ym Mhrydain Fawr; neu pan fo'r ddeorfa yn rhan o barth diogelwch, gwylidwriaeth neu gyfyngiadau'r UE.

(Noder, ni waeth a oes statws compartment, bydd pob safle'n aros o dan amodau rheoliadau rheoli clefydau cyffredinol o dan ddeddfwriaeth genedlaethol a'r UE.)

Ystyr "Gweithredwr Allanol" yw cwmni rheoli cnofilod annibynnol sydd â chontract gyda'r cwmni compartment i reoli cnofilod ar y safle (Adran 9).

Ystyr "Ymwelydd" yw unrhyw unigolyn sy'n cael mynediad i safle na chaiff ei gyfylogi gan y cwmni i weithio ar y safle hwnnw fel ei brif safle gwaith.

Noder bod hyn felly yn golygu y caiff cyflogai cwmni sydd â'i brif safle gwaith mewn man arall ei ddiffinio fel ymwelydd a rhaid iddo felly lofnodi'r cofnod ymwelwyr yn unol â hynny. (Adran 8).

Ym mhob un o'r Adrannau canlynol, rhaid i Brotocol rheoli ysgrifenedig y Cwmni gynnwys o leiaf y darpariaethau a restrir.

1. DIHEINTIO CERBYDAU'R CWMNI

1.1 **Nodwch leoliad y cyfleusterau diheintio cerbydau.**

1.2 Nodwch weithdrefn lanhau'r rhannau allanol; mae'r olwynion a bwâu'r olwynion yn hanfodol bwysig.

1.3 **Nodwch y math o ddiheintydd a ddefnyddir ar gyfer y rhannau allanol a'i grynhoad.**

1.4 Nodwch y weithdrefn lanhau ar gyfer compartment y llwyth.

- 1.5 **Nodwch y math o ddiheintydd a ddefnyddir ar gyfer compartment y llwyth a'i grynhoad.**
- 1.6 **Nodwch y weithdrefn lanhau ar gyfer caban y gyrrwr; mae cafn y traed yn arbennig o bwysig.**
- 1.7 **Nodwch y math o ddiheintydd a ddefnyddir ar gyfer caban y gyrrwr a'i grynhoad.**

2. DIHEINTIO ARDALOEDD MEWNOL AC OFFER SEFYDLOG

- 2.1 Rhaid i'r cyfarwyddiadau ysgrifenedig nodi'r ardaloedd y maent yn berthnasol iddynt, e.e. deoryddion, deorfeydd, llinellau prosesu cywion, cilfachau derbyn, cilfachau llwytho, offer sefydlog penodol.
- 2.2 Disgrifiwch y prosesau corfforol o gael gwared ar sarn, llwch a saim, o olchi, o ddadheintio, ac o sychu.
- 2.3 **Nodwch y math o ddiheintydd a ddefnyddir, ei grynhoad, a'r dull o'i ddefnyddio.**
- 2.4 **Nodwch y gweithdrefnau cynnal a chadw arferol i'w gweithredu yn ystod 'amser di-fynd'.**

3. DIHEINTIO'R OFFER Y GELLIR EU DEFNYDDIO ETO

- 3.1 Nodwch yr eitemau o offer perthnasol, e.e. hambyrddau a throlïau wyau ar gyfer cludo wyau o ffermydd i'r ddeorfa.
- 3.2 Nodwch leoliad y weithdrefn lanhau (gallai fod lleoliadau a gweithdrefnau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o offer).
- 3.3 Rhwch fanylion y broses ddiheintio.
- 3.4 **Nodwch y math o ddiheintydd a ddefnyddir a'i grynhoad**
- 3.5 Nodwch leoliad a dull storio offer ar ôl diheintio a chyn eu defnyddio, fel y caiff eu diogelu rhag cael eu halogi.

4. DERBYN WYAU: O'R TU ALLAN I'R COMPARTMENT

D.S: Y Cwmni sy'n gyfrifol am ddangos nad oes risg bosibl o gyflwyno haint gan wyau a geir yn allanol.

- 4.1 Gweithdrefn ar gyfer sicrhau bod y ffynhonnell yn rhydd o glefydau: profi'r heidiau gwreiddiol cyn eu dosbarthu, safonau bioddiogelwch wedi'u dilysu'n annibynnol, ac ati.

- 4.2 Diheintio'r wyau yn y man lle cânt eu casglu, ac eto cyn iddynt fynd i mewn i'r ddeorfa.
- 4.3 Gweithdrefnau i gadw'r wyau ar wahân wrth fynd i mewn i'r ddeorfa, drwy eu gosod mewn deoryddion.
- 4.4 Deoryddion a deorfeydd wedi'u neilltuo i'r wyau a ddaw o'r tu allan. Fodd bynnag gellir gosod yr wyau a ddaw o'r tu allan mewn deoryddion neu ddeorfeydd gydag wyau o'r compartment, ar yr amod bod y gweithdrefnau cwarantîn yn cael eu gweithredu arnynt i gyd ar ôl iddynt ddeor.
- 4.5 Gweithdrefnau i gadw'r cywion newydd eu deor ar wahân i'r holl gywion mewnol yn y llinellau prosesu; y gweithdrefnau a argymhellir byddai deor ar ddiwrnodau gwahanol, neu roi'r cywion o'r tu allan drwy'r llinellau prosesu olaf, yn union cyn eu golchi.
- 4.6 **Gweithdrefn i osod cywion ar safle magu ar wahân i unrhyw gywion eraill, nes eu bod wedi cwblhau 21 diwrnod o gwarantîn â chanlyniadau clinigol boddhaol.**
- 4.7 **Cynnal profion labordy yn ystod y cyfnod cwarantîn i ddangos bod y llwyth yn rhydd o feirysau ffliw adar a chlefyd Newcastle. Y weithdrefn a argymhellir yw cynnal profion seroleg ar ddiwrnod 14 i 21 ar sampl a ddewiswyd ar 95%hyder/5%nifer achosion.**
Cynnal profion feiroleg hefyd ar unrhyw gywion marw neu sydd wedi'u heintio.

5. CYFNOD RISG UWCH: RHAGOFALON YCHWANEGOL

- 5.1 **Ymwelwyr: Os bu achos o ffliw adar pathogenig iawn o fewn 50km i'r safle yn y tri mis diwethaf, dylid gwahardd pob ymwelydd, heblaw am y rheiny sy'n angenrheidiol i les a goroesiad yr adar. Rhaid gohirio'r gwaith cynnal a chadw arferol a wneir gan bersonél allanol. Fodd bynnag ni fydd y gwaharddiad yn gymwys i ymweliadau swyddogol gan swyddogion yr awdurdodau milfeddygol at ddibenion rheoli clefydau neu swyddogaethau statudol eraill.**
- 5.2 **Cerbydau: dylid gwahardd mynediad i'r safle i bob cerbyd, heblaw am y rheiny sy'n angenrheidiol i weithrediad y ddeorfa. Dylid anfon cerbydau'r cwmni sydd ar siwrneiau casglu wyau drwy ardaloedd sy'n ddigon pell o'r parthau a heintiwyd neu yr amheuwyd eu bod wedi'u heintio. Dylid cynnal asesiad risg ac os yw'n briodol dylid cymhwyso gweithdrefnau dadheintio ychwanegol at bob cerbyd sy'n gorfod dod ar y safle.**

- 5.3 **Symudiadau Staff ac Offer rhwng safleoedd Compartment: dylid gwahardd unrhyw symudiadau heblaw ei fod yn hollol angenrheidiol. Dylid trin safleoedd gwahanol fel unedau unigol hyd y gellir.**
- 5.4 Asesu Risg i'r Compartment cyfan: mewn achos o gompartmentau sy'n cynnwys mwy nag un safle, rhaid adolygu strwythur cyfan y compartment er mwyn asesu lefelau uwch y risg i safleoedd eraill oddi mewn iddo, a chymryd mesurau priodol.

6. MONITRO DATA DEOR A HYFYWEDD CYWION

- 6.1 Gweithdrefn ysgrifenedig i'w ddilyn gan reolwr y ddeorfa ar gyfer cofnodi ffigurau deor a hyfywedd cywion ar gyfer pob swp o wyau.
- 6.2 Nodwch sut a lle y cedwir y cofnod dyddiol.
- 6.3 Nodwch ystod arferol y cyfraddau deor a hyfywedd a ddisgwylir.
- 6.4 Lefelau gweithredu: nodwch lefel y gwyriad sylweddol neu anesboniadwy o'r cyfraddau a ddisgwylir sydd ei hangen i ysgogi adroddiad di-oed i filfeddyg y cwmni neu lefel reoli uwch arall. Nodwch at bwy y dylid anfon yr adroddiad, a dewisiadau eraill os oes absenoldeb.

7. DEUNYDDIAU PECYNNU: CYNHYRCHU, STORIO A DEFNYDDIO

- 7.1 **Rhaid i'r cwmni gael trefniant ysgrifenedig gyda'r cynhyrchydd i gadarnhau bod:**
- 7.1.1 Rhaid i ddeunyddiau pecynnu 'unwaith' fod yn newydd, yn lân a heb eu defnyddio;
- 7.1.2 Rhaid i'r deunyddiau pecynnu gael eu cludo i'r ddeorfa mewn deunydd lapio sy'n eu diogelu rhag cael eu halogi;
- 7.1.3 Rhaid i'r deunydd lapio ei hun hefyd fod yn lân ac yn rhydd o unrhyw halogiad pan gaiff ei gludo i'r ddeorfa;
- 7.2 Rhaid storio'r deunyddiau pecynnu yn y ddeorfa dan amodau sy'n eu diogelu rhag unrhyw risg o gael eu halogi gan adar gwyllt neu fermin.

8. PERSONÉL: CYFYNGIADAU MYNEDIAD

- 8.1 Mae'n rhaid sicrhau ei fod yn waharddedig i unrhyw berson fynd i'r ardal bioddiogelwch ar hyd unrhyw lwybr heblaw am y rhwystr hylendid, ac mae'n rhaid i gynllun ffisegol y safle atgyfnerthu hyn.

- 8.2 Cytundeb a lofnodir gan bob aelod o staff yn nodi na fyddant yn gweithio gydag unrhyw gasgliad o ddofednod nac adar hobi neu anwes na'u cadw na chael unrhyw gyswllt â hwy, ac y byddant yn rhoi gwybod i'r rheolwyr cyn mynd i'r ardal bioddiogelwch uchel os ydynt wedi cael unrhyw gyswllt o'r fath y tu allan i'r compartment hwn yn ystod y 72 awr flaenorol.
- 8.3 Datganiad a lofnodir gan bob ymwelydd yn nodi nad ydyw wedi ymweld ag unrhyw ddofednod nac adar hobi neu anwes, nac wedi gweithio gyda nhw, na chael unrhyw fath o gyswllt uniongyrchol ag adar o'r fath, heblaw am adar o fewn y compartment hwn, yn ystod y 72 awr cyn ei ymweliad â'r safle.
- 8.4 Cofnod mewn ffurf barhaol a hygyrch o bresenoldeb pob aelod o staff, a phresenoldeb pob ymwelydd â'r safle.
- 8.5 **Cofnod ysgrifenedig o'r weithdrefn wrth y rhwystr hylendid ar gyfer tynnu dillad ac esgidiau allanol, gadael bagiau neu sachau teithio ar yr ochr 'fudr', cael cawod a gwisgo dillad diogelu glân ar gyfer y tu mewn.**
- 8.6 **Cyfarwyddiadau i staff am reoli risg heintio wrth ddod ag eitemau personol (bocsys bwyd, ffonau symudol, papurau newyddion ac ati) i'r ardal bioddiogelwch uchel.**
- 8.7 **Gweithdrefn ar gyfer diheintio offer neu gyfarpar a ddaw gweithwyr cynnal a chadw, arolygwyr ac ati, â hwy i'r safle.**
- 8.8 **Gweithdrefn i leihau risg os oes angen i bersonél fynd i mewn i'r safle, am resymau brys, o fewn y 72 awr benodedig o amser heb gyswllt ag adar.**

9. RHEOLI CNOFILOD

- 9.1 **Nodwch pwy sy'n gyfrifol am weithrediadau rheoli cnofilod ar y safle. Gall fod yn gyflogeion y cwmni, neu'n weithredwr allanol. Os mai'r olaf ydyw, rhaid cael contract ysgrifenedig gyda'r gweithredwr sy'n cwmpasu'r manylion isod fel isafswm.**
- 9.2 Nifer a lleoliad safleoedd bwydo.
- 9.3 Math o abwyd.
- 9.4 Amllder y caiff safleoedd bwydo eu siecio.
- 9.5 Disgrifiwch yr ymatebion a geir pe byddai tystiolaeth o fwy o weithgarwch cnofilod.

10. STAFF: HYFFORDDIANT A GWEITHDREFNAU GWEITHREDU SAFONOL

- 10.1 Rhaglen ysgrifenedig ar gyfer hyfforddiant sefydlu i staff sydd newydd ymuno.
- 10.2 Atodlen ysgrifenedig o'r materion bioddiogelwch i'w cwmpasu yn ystod hyfforddiant sefydlu.
- 10.3 Atodlen ysgrifenedig o'r pwyntiau rheoli critigol i'w hamlygu yn ystod hyfforddiant sefydlu.
- 10.4 **Manylion am unrhyw gymwysterau bioddiogelwch allanol perthnasol y bydd gofyn i staff astudio ar eu cyfer a rhoi cynnig arnynt, e.e. cymwysterau NVQ.**
- 10.5 **Manylion am unrhyw hyfforddiant gloywi mewn gwasanaeth y bydd gofyn i staff ei gyflawni.**
- 10.6 **Hyfforddiant a gweithdrefnau gweithredu safonol penodol i'w darparu a'u teilwra'n benodol i bob maes gwaith.**

11: CERBYDAU: CYFYNGIADAU MYNEDIAD AR GYFER CLUDO I'R SAFLE NEU GASGLU ODDI YNO

- 11.1 Giatiau mynediad ac allanfa penodol
- 11.2 Disgrifio'r ardal ddadheintio, a'r offer a ddarperir.
- 11.3 Gweithdrefn ar gyfer dadheintio/diheintio teiars a bwâu olwynion o fewn yr ardal ddadheintio.
- 11.4 **Cofnod o ddadheintio/diheintio a gynhelir ar y safle a'i lofnodi gan aelod cyfrifol o staff ar gyfer pob cerbyd sy'n ymweld.**
- 11.5 **Gweithdrefn i'r gyrrwr gysylltu â staff ar y safle heb ddod i mewn i unrhyw barth bioddiogelwch uchel.**
- 11.6 **Gweithdrefn i ddiffinio a rheoli'r ardaloedd y gall y gyrrwr fynd iddynt.**
- 11.7 **Gweithdrefn ar gyfer llwytho/dadlwytho wrth yr ardal bioddiogelwch uchel (a fyddai fel arfer yn gilfachau derbyn/llwytho).**
- 11.8 Sut a ble y cedwir y cofnod o ymweliad y cerbyd, i ddangos y canlynol: dyddiad ac amser, perchennog y cerbyd, plât cofrestru'r cerbyd, enw'r gyrrwr, llwyth, cyfeiriad diwethaf yr ymwelwyd ag ef, dyddiad ac amser yr ymweliad â'r cyfeiriad diwethaf, a chadarnhad y rheolwr o ddadheintio.